# Y Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith (BMG) Ffeithlen

## Ffeithiau Allweddol

1. Mae'r Cynllun BMG yn ei gwneud hi'n bosibl i rai israddedigion allu cymryd blwyddyn allan o'u hastudiaethau i weithio.
2. Yr adeg arferol i gymryd BMG yw rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich cynllun gradd israddedig.
3. Nid yw myfyrwyr sy'n dilyn cwrs gradd integredig yn cymryd rhan yn y cynllun BMG; byddan nhw yn cael y dewis i gymryd Blwyddyn mewn Diwydiant (BMD), sy'n elfen integredig o'u hastudiaethau. *Mae'r Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith yn gweithredu mewn ffordd wahanol iawn i'r Flwyddyn mewn Diwydiant*.

   Os nad ydych yn sicr a yw'r cwrs gradd rydych yn ei ddilyn yn caniatáu ichi gymryd rhan yn y cynllun BMG, gofynnwch yn eich adran academaidd neu holwch y Gwasanaeth Gyrfaoedd.
4. Ni fyddwch wedi'ch cofrestru'n fyfyriwr am gyfnod y Cynllun BMG. *Mae i'r newid statws hwn oblygiadau ariannol ac oblygiadau yn achos hawliau eraill*.
5. Mae cymryd rhan yn y cynllun BMG yn wirfoddol a dewisol.
6. Gall myfyrwyr y DU ac Iwerddon gymryd rhan yn BMG heb gyfyngiad.
7. Gall myfyrwyr o'r EEA/Swisdir gymryd rhan yn BMG os y daethant i'r DU ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 a gwanethant gais i Gynllun Setliad yr UE.
8. Ni all myfyrwyr nad ydynt o'r DU, a myfyrwyr o'r EEA/Swisdir a ddaethant i'r DU ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021, gymryd rhan yn BMG gan fod eu visa myfyrwyr yn eu hatal rhag cymryd blwyddyn allan i ymgymryd â chyflogaeth â thâl nad yw wedi ei integreiddio gyda'u cyrsiau gradd.
9. Rhaid i leoliad BMG bara o leiaf 30 wythnos amser llawn ond, yn ddelfrydol, bydd yn para am 52 wythnos/12 mis. Bydd rhai lleoliadau BMG yn dechrau ym mis Mehefin, yn syth ar ôl i dymor haf yr ail flwyddyn orffen, ac yn para am 15 mis, tan i'r myfyriwr ddychwelyd i'r Brifysgol; mae hyn yn iawn hefyd.
10. Gallwch weithio gyda mwy nag un cyflogwr/sefydliad yn ystod y flwyddyn, er enghraifft 6 mis gydag un cyflogwr ac yna 6 mis gydag un arall. Ond, yn ddelfrydol, dylech gael lleoliad gyda'r un cyflogwr trwy gydol y Cynllun.
11. Mae modd i'r cyflogwr sy'n eich croesawu fod wedi'i leoli yn y DU neu dramor.

    Noder: *os ydych yn ystyried cymryd lleoliad dramor, bydd angen ichi wneud yn sicr, gan nad ydych yn fyfyriwr, eich bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth cyflogaeth y wlad yr ydych yn bwriadu symud iddi ar gyfer eich lleoliad BMG.*
12. Yn ddelfrydol, byddwch yn cadarnhau manylion eich lleoliad ychydig fisoedd cyn iddo ddechrau, ond y dyddiad terfynol i gyflwyno'r wybodaeth yw **15 Medi** ar ôl ichi orffen eich ail flwyddyn. Os nad ydych wedi llwyddo i gael lleoliad erbyn y dyddiad hwnnw, disgwylir i chi ddod nôl i'r Brifysgol i barhau â thrydedd flwyddyn eich astudiaethau, heb gymryd blwyddyn allan.
13. Chi sy'n *gyfrifol am ddod o hyd i'ch lleoliad BMG*. Ceir sawl ffynhonnell gwybodaeth a bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn eich helpu cymaint â phosibl. I ddechrau, edrychwch ar ganllawiau cam-wrth-gam BMG (Cam 4).

# Yr hyn mae cymryd rhan yn y cynllun BMG yn ei olygu i fyfyrwyr

Statws myfyriwr

O dan y cynllun BMG, bydd eich astudiaethau yn cael eu 'gohirio' am flwyddyn; yn ystod y cyfnod hwn rydych yn ei gymryd allan o'ch astudiaethau israddedig, ni fyddwch wedi eich cofrestru na'ch cydnabod yn fyfyriwr swyddogol, ac ni fyddwch yn talu ffioedd dysgu.

Byddwch yn cael eich ystyried yn gyflogedig.

Ar ôl i'ch lleoliad BMG ddod i ben, disgwylir ichi ddod nôl i Brifysgol Aberystwyth i ailgofrestru'n fyfyriwr a chwblhau blwyddyn olaf eich cwrs gradd israddedig.

Cyllid myfyriwr

Gan nad ydych wedi'ch cofrestru'n fyfyriwr yn ystod y cynllun BMG, ni fydd gennych hawl i gael cyllid myfyriwr. Caiff eich benthyciad myfyriwr ei ohirio er mwyn ichi allu ei dderbyn ar gyfer Blwyddyn 3, ar ôl ichi ddychwelyd o'ch lleoliad BMG.

Fel y nodir yng nghanllawiau cam-wrth-gam y cynllun BMG, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'ch cwmni cyllid myfyrwyr, ar ôl i'ch lleoliad gael ei gadarnhau; ni ddylech wneud cais am gyllid myfyriwr ar gyfer y flwyddyn ar leoliad, *hyd yn oed os bydd y cwmni cyllid myfyrwyr yn eich atgoffa i wneud hynny*.

Llety Prifysgol

Gan na fyddwch wedi'ch cofrestru'n fyfyriwr yn ystod y cynllun BMG, ni fydd gennych hawl i fyw yn llety Prifysgol Aberystwyth yn ystod y flwyddyn ar leoliad.

Treth y Cyngor

Gan na fyddwch wedi'ch cofrestru'n fyfyriwr yn ystod y cynllun BMG, bydd yn rhaid ichi dalu Treth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ar leoliad.

Aseiniadau

Gan nad yw'r lleoliad BMG yn rhan integredig, achrededig o'ch astudiaethau gradd, ni ddisgwylir ichi gwblhau unrhyw aseiniadau i'w hasesu yn ystod eich blwyddyn ar leoliad, ac ni fyddwch yn derbyn credydau na marciau tuag at ganlyniad cyffredinol eich gradd am gwblhau lleoliad BMG.

Defnyddio adnoddau Prifysgol Aberystwyth

Er nad ydych wedi'ch cofrestru'n fyfyriwr yn ystod y cynllun BMG, mae Prifysgol Aberystwyth yn dal i'ch cefnogi'r un peth â'r myfyrwyr eraill cyn belled â phosibl, er enghraifft:

- Byddwch yn dal i allu defnyddio'ch cyfrif e-bost myfyriwr a'ch cofnod myfyriwr yn ystod cyfnod eich lleoliad BMG.
- Bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i weld sut mae pethau'n mynd, a gallwch gael cymorth ganddynt ar unrhyw adeg tra byddwch i ffwrdd.
- Bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn disgwyl i'ch cyflogwyr gadarnhau bod y polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch priodol yn eu lle, ac i wneud yn sicr eich bod yn cael sesiwn ymgynefino drwyadl ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch ar ddechrau'r lleoliad.

*Darperir tabl cryno o oblygiadau cymryd rhan yn y cynllun BMG ar ddiwedd y ddogfen hon.*

## Ystyriaethau eraill

Llety Prifysgol (os ydych am fyw yn neuaddau preswyl y Brifysgol ym Mlwyddyn 3)
Os ydych wedi cadarnhau gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd fod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun BMG, ac yn chwilio am leoliad, dylech wneud cais am lety prifysgol yn y drydedd flwyddyn beth bynnag, oherwydd nid oes sicrwydd pendant y cewch chi leoliad BMG. Os derbyniwch gynnig o lety Prifysgol am y drydedd flwyddyn ac yna llwyddo i gael lleoliad BMG ar ôl hynny, bydd yn rhaid ichi roi gwybod i'r Swyddfa Llety eich bod yn gwrthod y cynnig o lety Prifysgol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Swyddfa Llety'n fodlon ad-dalu'r blaendal.

Treth y Cyngor
Gan y byddwch yn cael cyflog yn ystod eich lleoliad BMG ac na fyddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr, bydd yn rhaid ichi dalu Treth y Cyngor. Bydd hyn yn para tan y byddwch yn ailgofrestru'n fyfyriwr, felly bydd angen ichi dalu'r dreth hyd at ddechrau eich trydedd flwyddyn, hyd yn oed os bydd eich lleoliad yn dod i ben cyn hynny.

Os ydych yn rhannu tŷ ac mai chi yw'r unig un nad yw'n fyfyriwr, byddwch yn atebol i dalu Treth y Cyngor eich hun. Gallai fod yn ddefnyddiol trefnu i rannu gyda rhywun arall sy'n ennill cyflog, fel mai dim ond cyfran o'r cyfanswm y bydd angen ichi ei dalu. Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, mae gennych hawl i lwfans unigolyn sengl, sef 25%. Bydd angen ichi wneud cais am hyn; ni chaiff ei dynnu'n awtomatig oddi ar y bil. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am Dreth y Cyngor, cysylltwch ag Awdurdod Lleol eich ardal.

Cyflog
Yn ystod eich lleoliad BMG, dylech ddisgwyl i'ch cyflog fod o leiaf ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol (ICC/CBC), neu'n uwch. Mai rhai swyddi wedi'u heithrio rhag gorfod talu'r ICC/CBC), er enghraifft gwaith gwirfoddol gydag elusen gofrestredig, sefydliad gwirfoddol, corff codi arian cysylltiedig neu gorff statudol. Hefyd, mewn rhai sectorau, bu traddodiad o gynnig cyfleoedd ar sail ddi-dâl ac, i lawer o fyfyrwyr, dyma'r unig ffordd o gael profiad gwaith yn eu dewis faes.

Wrth edrych ar leoliadau lle nad yw'n glir beth yw'r cyflog neu os yw'n cael ei gynnig ar sail ddi-dâl, fe'ch cynghorir bob amser i ystyried y statws cyflogedig ac a fyddai gennych hawl o leiaf i daliadau ICC/CBC, neu a yw'r cyflogwr yn bendant wedi'i eithrio rhag deddfwriaeth ICC/CBC. I gael rhagor o wybodaeth ac i weld atebion i unrhyw gwestiynau am hyn, edrychwch ar gyngor Llywodraeth y DU a/neu ffoniwch y Llinell Gymorth Gyfrinachol, Pay and Work Rights helpline, 0300 123 1100.

Yn y pen draw, chi biau'r dewis; dim ond chi sy'n gwybod faint o arian y byddwch ei angen i dalu eich biliau, megis Treth y Cyngor, a chostau byw, ac a ydych yn gallu fforddio cymryd lleoliad di-dâl neu leoliad cyflog isel; a dim ond chi all benderfynu beth y byddwch yn ei golli os na fanteisiwch chi ar gyfle, er nad yw'n talu cyflog da. *Os penderfynwch dalu am eich lleoliad BMG eich hun, cofiwch sicrhau eich bod wedi ystyried holl oblygiadau ariannol peidio â bod yn fyfyriwr yn ystod y cyfnod hwn.*

Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol
Pan fyddwch wedi ennill dros gyfanswm penodol o arian mewn blwyddyn dreth, bydd Treth Incwm ac Yswiriant Cenedlaethol yn cael eu tynnu o'ch cyflog. Bydd angen i chi holi eich cyflogwr a yw hyn yn cael ei dynnu allan cyn i chi ei dderbyn, h.y. gan weinyddwyr y cwmni neu adran; hynny sy'n digwydd ran amlaf. Ceir mwy o wybodaeth ar faterion Treth ac Yswiriant Cenedlaethol fan hyn: www.hmrc.gov.uk.

## Cymryd rhan mewn cynllun BMG – crynodeb

| | Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith (BMG) | Blwyddyn mewn Diwydiant (YI) |
|---|---|---|
| Cymhwystra | Myfyrwyr israddedig wedi'u cofrestru ar gyrsiau gradd 3 blynedd nad ydynt yn integredig, e.e.<br><br>C800 *BSc Seicoleg* | Myfyrwyr israddedig wedi'u cofrestru ar gyrsiau gradd integredig 4 blynedd, e.e.<br><br>WF7F *BSc Seicoleg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)* |
| Gall myfyrwyr o'r tu allan i'r DU gymryd rhan | Na | Ie |
| Gweinyddir y cynllun gan | Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | Yr adran academaidd |
| Dyfernir credydau tuag at ganlyniad cyffredinol y radd | Na | Ie |
| ***Yn ystod y flwyddyn*** | | |
| Statws myfyriwr | Heb eich cofrestru | Wedi'ch cofrestru |
| Ffioedd dysgu i'w talu | Dim | Canran |
| Hawl i dderbyn / dylid gwneud cais am gyllid myfyriwr | Na | Ie |
| Hawl i fyw yn llety PA | Na | Ie |
| Eithrio rhag talu Treth y Cyngor | Na | Ie |
| Y lleoliad yn cael ei fonitro gan | Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | Yr Adran Academaidd |

*Diolch am ddarllen y Ffeithlen hon; os oes gennych unrhyw ymholiadau, cofiwch ddod i sgwrsio ag aelod o dîm cyfeillgar y [Gwasanaeth Gyrfaoedd](#) unrhyw bryd.*

***Eich Gwybodaeth Bersonol***

*Er mwyn darparu ystod gyfan ein gwasanaethau i chi, gan gynnwys gweinyddu Cynllun y Flwyddyn Mewn Gwaith a'ch cynorthwyo i chwilio am leoliad, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cadw a defnyddio'ch data personol ar sail buddiant dilys. Darllenwch ein polisi Diogelu Data cyflawn i gael rhagor o wybodaeth.*